

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWIYD AR NOS LUN 31AIN O ORFFENNAF 2017 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Bari Evans (Cadeirydd), Jill Evans, Iona Edwards-Jones, Falmai Evans, Stanley Williams, Philip Williams, Iwan Jones ynghyd a'r Clerc a chwe aelod o'r cyhoedd.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Elfed Williams, Hywel Davies a'r Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch.

2. TRAFODAETH GYDAG SCCH LUCY GREEN O ORSAF HEDDLU DINBYCH.

Croesawodd y Cadeirydd SCCH Lucy Green i'r cyfarfod sydd ym Mhlismones newydd i'r ardal sydd yn gyfrifol am Ddinbych Gwledig sydd yn cynnwys y pentrefi o dan ofalaeth Cyngor Cymuned Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch. Y prif bwnc o drafodwyd oedd y troseddau ym mhentref Saron a gwneud gan drigolion Safle Carafanau Cae'r Mynydd sydd yn achosi pryder i berchnogaeth tai ym mhentref Saron. Nodwyd SCCH Green y sylwadau a phenderfynwyd edrych i mewn i'r sylwadau ar gwynion a diolchwyd iddi fynychu'r cyfarfod.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 26ain o Fehefin 2017 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Cadarnhawyd i drafod materion Cymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch yn cyfarfod nesaf y Cyngor ym mis Medi.

B. Mae'r Cynghorydd Cyngor Sir Ddinbych Joseph Welch yn dal i ddisgwyl adroddiad Trevor Carr, Cydlynnydd Gwasanaeth Stryd (Ardal Dinbych) Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar gyflwr y ffordd rhwng Prion a Llanrhaeadr.

C. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl adroddiad Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar faterion priffyrdd y gymuned a chodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.

D. Derbyniwyd adroddiad gan y Cynghorydd Philip Williams fod yna ddim perchnogaeth i'r "Tir Comin" tu ôl i Ysgol Pant Pastynog ym Mhrion.

E. Yn dilyn cyfarfod gyda Mr Darren Millar, Aelod Cynulliad dros Orllewin Clwyd, ar 10fed o Orffennaf 2017, mae Mr Millar wedi gyrru sylwadau yn gwrthwynebu'r cais cynllunio diweddaraf Maes Carafanau Cae'r Mynydd yn Saron i'r Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych. Adroddwyd Cynghorydd Jill Evans fod y Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch wedi cynnig trefnu cyfarfod safle rhwng Perchennog Maes Carafannau Cae'r Mynydd ar Aelodau'r Cyngor Cymuned Llanrhaeadr. Penderfynwyd derbyn y cynnig.

F. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb oddi wrth Gynghorydd Sir Ddinbych, Huw Hildith-Roberts i gadarnhau os mae am fynychu cyfarfod mis Medi'r Cyngor i drafod Ysgolion Bro Cinmeirch a Phant Pastynog.

G. Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Iona Edwards-Jones yn cadarnhau ei fod wedi cyfarfod a chwmni Scottish Power ynglŷn ar safle parcio a diogelwch yn Ysgol Pant Pastynog ym Mhrion.

5. SEDD WAG Y CYNGOR.

Derbyniwyd y Cadeirydd cais llafar i'r sedd wag y Cyngor ar ôl diwrnod cau'r hysbyseb swyddogol i'r sedd wag. Derbyniwyd adroddiad y Clerc bod yna hysbyseb newydd yn bodoli ac i'r ymgeisydd ysgrifennu at y Clerc (yn ôl yr hysbysiad swyddogol) cyn diwrnod cau'r hysbysiad ar 31ain o Awst 2017.

6. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £11,122.00.

B. Taliadau:-

1. Cyngor Sir Ddinbych – Cyfarfod blaenorol y Cyngor - £15.00.

2. Cyngor Sir Ddinbych – Cost Etholiad y Cyngor - £165.68.

C. Un Llais Cymru – Cost Cynrychiolydd (Cynghorydd Philip Williams) Cynhadledd a Chyfarfod Blynyddol ar 30ain o Fedi 2017 - £80.00.

7. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu cais cynllunio amrywio amod rhif 2 o ganiatâd cais cynllunio rhif cod 23/2016/0459 i ganiatáu newidiadau i'r cynlluniau a gymeradwywyd yn Llwyn Onn, Llanrhaeadr.

B. Cais cynllunio i godi estyniad i'r annedd yn Llwyn Bach, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.

C. Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio: Gwesty Bryn Morfydd a Pharc Lodge, Llanrhaeadr. Penderfynwyd y Cadeirydd wneud trefniadau cyfarfod i drafod y “Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio ar 14eg o Awst 2017.

8. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd gwahoddiad i'r Seremoni Ryddid ar 2il o Fedi 2017 yn Rhuthun a threfnwyd gan Gyngor Sir Ddinbych.

B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

9. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych:-

A: Teledu yn y gwrych wrth Ddwyfor yn Llanrhaeadr.

B. Sbwriel a gwastraff ar ochr y ffordd wrth safle Cae'r Mynydd yn Saron.

C. Ail beintio “Araf/Slow” ar wyneb y ffordd rhwng Ysgol Pant Pastynog a'r Safle Maes Chwarae ym Mhrion.

D. Tyfiant glaswellt eisiau ei thocio ar y ffens diogelwch rhwng Prion a Llanrhaeadr.

E. Cyflwr difrifol y ffordd rhwng Prion a Llanrhaeadr.

10. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 25ain o Fedi 2017 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 p.m.